

“O’r corun i’r sawdl”

“Felly byddwch chwi’n berffaith fel y mae eich Tad nefol yn berffaith.” (adn. 48)

Beth am ddarllen Mathew 5:43–48 ac yna myfyrio

Gall gorchymyn heddiw unwaith eto, wedi’i roi yng nghyd-destun darlleniad heddiw, ymddangos fel delfryd amhosibl. Mae o gymorth nodi bod y gair ‘perffaith’ (*teleios* yn y Groeg) yn cael ei gyfieithu orau fel ‘cyflawn’ neu ‘aeddFed’ – sy’n cyfeirio at haelioni cariad Duw yn fwy nag at ei berffeithrwydd moesol. Os ydy haul Duw yn tywynnu a’i law yn disgyn yn gyfartal ar y cyfiawn a’r anghyfiawn mewn daioni diwahân, yna bydd dyfalbarhau i garu’r bobl sy’n ein cam-drin yn ein haeddfedu ninnau. Mae gorchymyn Iesu yn her i ni beidio â bodloni ar ddim llai na’r hyn mae’r Tad am ei roi i ni ac am ei wneud yn ein bywydau.

Pan brynwyd Waverley Abbey House yn Surrey gan Crusade for World Revival roedd wedi mynd â’i ben iddo. Nid tacluso ambell gornel yma ac acw neu ychwanegu estyniad fan hyn a fan draw oedd y nod ond adnewyddu’r adeilad cyfan, gan ei drawsnewid i’r adeilad hardd, er heb ei orffen eto, sydd yno heddiw. Yn ddigon tebyg, y Tad ydy’r ‘Ailddatblygwr Mawr’ ar gyfer ein bywydau ni. Dyd y ddim yn fodlon ychwanegu dim ond ychydig o grefydd i gornel o’n bywydau. Mae wedi ymroi i’n hadnewyddu’n llwyr. Yng Nghrist rydyn ni’n ymgymryd â rhaglen ailadeiladu hyd oes. Mae bod yn berffaith fel mae Duw yn berffaith yn golygu bod yn fodlon byw fel mae Duw am i ni fod. Diolch byth, mae ein Tad nefol, yn ei ras a’i amynedd, yn dal i weithio ynom i gwblhau’r dasg nes y byddwn wrth ei fodd.

A pheidiwch ag anghofio hyn: “Nid yw cariad yn darfod byth.” (1 Cor. 13:8). Mae cariad bob amser yn dod o hyd i ffyrdd i’w fynegi ei hun, ac wrth wneud hynny mae’n gwneud y person sy’n caru yn fwy cariadus.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

1 Cor. 13:4–7; 2 Cor. 5:16–18; Phil. 1:1–11; 2 Pedr 1:2–8; 3:18

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Am beth mae Paul yn sicr wrth ysgrifennu at y Philipiaid?
2. Beth sy’n ein cadw rhag bod ‘nad diog a diffwrwyth’ yn ôl Pedr?

Gweddi

O Dad, diolch i ti am f’atgoffa o’r ffaith na allaf fethu os byddaf yn caru, hyd yn oed os bydd fy ngharu yn methu â chyflawni ei fwriad, oherwydd wrth fynegi cariad byddaf yn tyfu’n fwy cariadus. Dw i’n tyfu mewn cariad – dyna wych! Amen.